**Gwahodd datganiadau o ddiddordeb mewn rolau gwirfoddol ar Bwyllgor Cynghori Technegol Effeithlon ac Effeithiol (E&E TAC) PecynUK**

**Cynnwys**

Crynodeb....................................................................................................1-3

Ynglŷn â'r penodiad..........................................................................................3

Manyleb person.................................................................................................3

Y broses ymgeisio a dethol.............................................................................. 4

Gwybodaeth ychwanegol i'r ymgeiswyr........................................................4-6

**1.Crynodeb**

**Sefydliad** – PecynUK

**Yr adran sy'n Lletya** – Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), (mewn partneriaeth â llywodraethau datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban).

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth** – Mae PecynUK yn annog ceisiadau gan unigolion dawnus sydd â chymwysterau addas o bob cefndir ac ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Yn ein barn ni, dim ond os yw'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymdeithas y gall y grŵp yma fod yn effeithiol.

Rydyn ni'n casglu data am nodweddion a chefndiroedd ymgeiswyr, gan gynnwys gwybodaeth am gefndir addysgol a phroffesiynol pobl, er mwyn inni sicrhau ein bod yn denu ystod eang o bobl sydd â chymwysterau addas i'r rolau yma a bod ein prosesau dethol yn deg i bawb. Heb yr wybodaeth yma, mae'n anodd gweld a ydy'n proses o estyn allan yn gweithio, a ydy'r broses ymgeisio yn cael effaith annheg ar grwpiau penodol, ac a ydy newidiadau'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais, mae'ch ymatebion yn cael eu casglu gan Defra, sef yr adran sy'n lletya PecynUK ar ran llywodraethau datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu gwybodaeth reoli am amrywiaeth yr ymgeiswyr. Cewch ddewis "Gwell gen i beidio â dweud" i unrhyw gwestiwn nad ydych chi'n dymuno'i ateb. **Fydd yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi ar y ffurflen ddim yn cael ei gweld gan y Panel Asesu sy'n adolygu'r ceisiadau yn erbyn y meini prawf a hysbysebwyd ac yn gwneud argymhellion penodi i Bwyllgor Gweithredol PecynUK.**

Mae’n Siarter Preifatrwydd yma yn nodi'n fanylach sut byddwn ni’n defnyddio’ch data personol, a'ch hawliau chi. Mae wedi’i gwneud o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR).

**Hyderus o ran Anabledd** – Mae Defra yn aelod o gynllun y Llywodraeth, Hyderus o ran Anabledd, ac yn defnyddio symbol y cynllun Hyderus o ran Anabledd, ynghyd â sefydliadau eraill o'r un anian, i ddangos ei ymrwymiad i ddangos arferion da tuag at y rhai a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais am y rolau gwirfoddol hyn, sydd ag anabledd. Mae'r cynllun yn helpu i recriwtio a chadw pobl anabl.

Pan fyddwch chi’n gwneud cais, cewch gyfle i ddewis a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y cynllun yma.

**Addasiadau rhesymol** – mae PecynUK wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau na fydd ymgeiswyr ag anableddau, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, neu anghenion eraill o dan anfantais sylweddol wrth wneud cais am rolau fel y rhain. Gall hyn gynnwys newid y broses recriwtio i alluogi pobl sy'n dymuno gwneud cais i wneud hynny.

Pan fyddwch chi’n gwneud cais, cewch gyfle i ofyn am addasiadau rhesymol yn y broses ymgeisio.

**Lleoliad** – Cenedlaethol

**Sector** – Adnoddau a Gwastraff

**Sgiliau –** Rydyn ni’n chwilio am weithwyr proffesiynol rheoli adnoddau sydd â phrofiad o amrywiaeth o feysydd arbenigedd ee gweithrediadau, strategaeth, ymddygiad defnyddwyr ac amrywiaeth o brofiad technegol i gwmpasu nifer o sefyllfaoedd rheoli gwastraff.

Mae'r sgiliau canlynol hefyd yn hanfodol:

- Sgiliau cyfathrebu a gwrando cryf.
- Sgiliau dadansoddi cryf.
- Meddyliwr arloesol, yn gallu helpu i ddatgarboneiddio cadwyn gwerth pecynwaith.
- Gweithio mewn tîm gyda'r gallu i weithio'n dda ac yn barchus gyda phobl yn unigol ac mewn grŵp, yn enwedig lle mae safbwyntiau'n wahanol.
- Yn gallu bod yn fyfyriol ac yn agored i hunanwerthusiad.
- Disgresiwn a pharch at natur gyfrinachol a sensitif rhai agweddau ar waith y grŵp.

**Nifer y swyddi gwag** – Hyd at 15 (uchafswm)

**Ymrwymiad amser** – Ar gyfartaledd, hyd at ddiwrnod y mis (yn fras) fydd yr oriau a dreulir

**Statws y penodiad** – Mae'r rolau hyn yn wirfoddol ac yn gynghorol. Fyddwch chi ddim yn dod yn aelod o staff PecynUK. Fyddwch chi ddim yn dod o dan ddarpariaethau’r gyfraith cyflogaeth.

**Hyd y tymor** – un, dwy neu dair blynedd (i atal y grŵp rhag adnewyddu yr un pryd ac i sicrhau parhad). Ran amlaf, fydd cyfanswm yr amser a dreulir yn y swydd ddim yn fwy na mwy na thri thymor, hyd at uchafswm o naw mlynedd.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** – 24 Mawrth 2025

**Llinell amser y broses mynegi diddordeb yma –**

Cystadleuaeth mynegi diddordeb yn agor – 17 Chwefror 2025

Ffenestr ymgeisio yn cau – 24 Mawrth 2025

Didoli yn dechrau – wythnos yn dechrau 31 Mawrth 2025

Cwblhau didoli – erbyn 11 Ebrill 2025

Penderfyniad terfynol – wythnos yn dechrau 28 Ebrill 2025

Rhannu'r canlyniadau gyda'r ymgeiswyr – dechrau mis Mai 2025

**<u>2.Ynglŷn â'r penodiad</u>**

Bydd Pwyllgor Cynghori Technegol Effeithlon ac Effeithiol (E&E TAC) PecynUK yn helpu i gyflwyno Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith (pEPR). Mae pEPR yn rhan o gynllun uchelgeisiol i leihau faint o becynwaith sy'n anodd ei ailgylchu neu na ellir ei ailgylchu, drwy osod ardoll ar y cynhyrchwyr a thrwy ddefnyddio'r ardoll yma i ariannu awdurdodau lleol i ddarparu atebion rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol ar gyfer gwastraff pecynwaith. Mae'n anelu hefyd at leihau faint o becynwaith sy'n cael ei ddefnyddio, cynyddu cyfraddau ailgylchu yn gyffredinol, a chreu cymhellion ar gyfer prosesau mwy effeithlon ac effeithiol drwy'r cyfan o gylch bywyd rheolaeth gwastraff pecynwaith a hynny trwy hybu newid ymddygiad eang ar draws y pedair gwlad.

Bydd yr E&E TAC yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu arweiniad a chyngor arbenigol ar faterion technegol sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun. Nid fforwm penderfynu mohono, ond ffynhonnell gwybodaeth a phrofiad dibynadwy sy'n cynnwys aelodau a fydd â thoreth o arbenigedd gweithredol a phrofiad polisi o amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd profiad amlwg yn y sector yn amhrisiadwy i helpu'r cynllun i gyflawni llwyddiant a chael effaith fawr ar dargedau amgylcheddol, gan gyfrannu at yr economi cylchol.

**<u>3. Manyleb person</u>**

**Meini prawf hanfodol** – Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu dangos un o leiaf o'r canlynol:

- Profiad helaeth o weithio ym maes casglu a/neu waredu gwastraff, neu yn y diwydiannau pecynnu a chynhyrchu.
- Profiad helaeth o weithio mewn neu gyda dau neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban yn y meysydd canlynol:
  a) Rheoli gwastraff awdurdodau lleol (strategaeth gwasanaeth)
  b) Rheoli gwastraff awdurdodau lleol (gweithrediadau)

c) Ymddygiad defnyddwyr

- Arbenigedd technegol mewn tri neu fwy o'r meysydd rheoli gwastraff canlynol:

a) Gwledig

b) Trefol

c) Lleoliadau anhygyrch

d) Gwahanol fathau o eiddo

e) Ardaloedd difreintiedig v. cyfoethog

f) Gwerthoedd deunyddiau

g) Ailgylchadwyedd deunyddiau

h) Gweithrediadau gwaredu

i) Didoli deunyddiau

**Meini prawf dymunol** –

- Arbenigedd technegol yn y canlynol:

a) System awdurdod lleol dwy haen Lloegr

b) Gwybodaeth am weithrediadau yng ngwahanol wledydd y Deyrnas Unedig

**4.Y broses ymgeisio a dethol**

**Sut i wneud cais** – I wneud cais am y swydd yma, dylech anfon eich CV a'ch datganiad ategol i PackUK.governance@defra.gov.uk **erbyn canol dydd ar 24 Mawrth 2025** gan nodi'r neges ebost â **E&E TAC** yn y maes pwnc.

Mae hefyd yn ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno'r canlynol:

- Ffurflen Gwybodaeth Amrywiaeth a Gwrthdaro Buddiannau
- CV heb fod yn fwy na dwy ochr o A4 yn amlinellu cymwysterau proffesiynol a hanes cyflogaeth
- Datganiad ategol sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol, gan roi enghreifftiau penodol (uchafswm o 500 gair).

**Trosolwg o'r broses ymgeisio** – Penodir ar sail teilyngdod yn dilyn proses gystadlu deg ac agored. Byddwn yn ymdrin â'ch cais cyn gynted â phosibl, gan roi gwybodaeth ichi ar adegau allweddol. Y nod yw cwblhau'r broses benodi erbyn diwedd mis Ebrill 2025.

Cadeirydd Pwyllgor Gweithredol (ExCo) PecynUK fydd yn gyfrifol am y penodiadau hyn a byddwn yn ymgynghori ag ef ar bob cam o'r broses benodi. I'w helpu i wneud penderfyniadau, bydd panel asesu ar gyfer y rôl wirfoddol yma sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc yn penderfynu, yn wrthrychol, pa ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rôl ar sail y CV a'r datganiad ategol a gyflwynir gan yr ymgeiswyr. **Sylwch na fydd yna gyfweliadau.**

**Panel didoli** – Yn y cyfarfod i greu'r rhestr fer bydd y panel asesu yn asesu'r ceisiadau, drwy ddidoli heb enwau, a hynny yn erbyn y meini prawf cymhwystra, gan benderfynu pa ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r meini prawf orau a phwy ddylai gael eu hargymell ar gyfer un o'r rolau. Yna ymgynghorir ag ExCo PecynUK ynghylch y rhestr fer a argymhellir gan y panel.

Pan fydd ExCo PecynUK wedi cytuno ar y rhestr o benodiadau a argymhellir, fe gewch chi wybod (drwy'r ebost). Fe'ch hysbysir drwy'r ebost hefyd os nad ydych wedi bod yn llwyddiannus neu wedi cael eich rhoi ar restr wrth gefn.

**Cyfrinachedd a diogelwch** – Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus lofnodi cytundeb peidio â datgelu cyn cael dod i gyfarfodydd y E&E TAC.

**<u>5.Gwybodaeth ychwanegol i'r ymgeiswyr</u>**

Egwyddorion bywyd cyhoeddus – Mae [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#) (sydd hefyd yn cael eu galw'n Egwyddorion Nolan) yn gymwys i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus.

**1. Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

**2. Uniondeb**

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt hwy eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

**3. Gwrthrychedd**

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

**4. Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu i sicrhau hyn.

**5. Bod yn agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid dal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

**6. Gonestrwydd**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

**7. Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin eraill gyda pharch. Dylent hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.

**Cod ymddygiad** – Mae PecynUK yn disgwyl i holl ddeiliaid y rolau gwirfoddol hyn weithio yn unol â'r safonau personol a phroffesiynol uchaf. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yng nghylch gorchwyl E&E TAC.

**Rheoli buddiannau allanol ac ystyried materion enw da** – Disgwylir i ddeiliaid y rolau hyn barchu a chadw Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Cyn ichi wneud cais, dylech ystyried yn ofalus:

- unrhyw fuddiannau allanol a all fod gennych
- unrhyw faterion posibl o ran eich enw da sy'n codi o'ch gweithredoedd yn y gorffennol neu ddatganiadau cyhoeddus rydych chi wedi'u gwneud; a/neu
- unrhyw rolau gwleidyddol rydych chi'n eu dal neu ymgyrchoedd gwleidyddol rydych chi wedi'u cefnogi;

a allai godi amheuon ynghylch eich gallu i gyflawni'r rôl rydych chi'n gwneud cais amdani.

Mae modd datrys llawer o wrthdrawiadau buddiannau yn foddhaol.  Os byddwch chi ar y rhestr fer, bydd y panel yn mynd ar ôl unrhyw wrthdaro posibl gyda chi, gan gynnwys unrhyw gynigion a all fod gennych i'w lliniaru. Bydd hyn yn cael ei nodi yn eu cyngor i Bwyllgor Gweithredol PecynUK.

Cyhoeddir manylion gweithgarwch gwleidyddol sydd wedi'i ddatgan pan gyhoeddir y penodiad (nid yw gweithgarwch gwleidyddol yn rhwystr i benodiad, ond mae'n rhaid ei ddatgan).

**Penodi a chyfnod yn y swydd** – Penodir am y tymor a nodir yn yr hysbyseb yma, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am dymor pellach, yn ôl disgresiwn ExCo PecynUK. Does dim rhagdybiaeth awtomatig o blaid ailbenodi; dylai pob achos gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys, ymysg pethau eraill,  amrywiaeth y grŵp presennol a'i gydbwysedd sgiliau a phrofiad. Ran amlaf, fydd cyfanswm yr amser a dreulir yn y swydd ddim yn fwy na thri thymor.

**Cydnabyddiaeth** – Dim, mae'r rolau'n wirfoddol.

**Pensiwn a diswyddo** – Dim, mae'r rolau'n wirfoddol.

**Adborth** – Byddwn yn rhoi gwybod ichi am statws eich cais.

**Cwynion** – Y nod yw prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais

Cysylltwch â thîm llywodraethu PecynUK PackUK.governance@defra.gov.uk os hoffech wneud cwyn ynglŷn â'ch cais. Byddan nhw'n cydnabod eich cwyn ar ôl iddi ddod i law ac yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith.

**Diogelu data** – Bydd Defra a PecynUK yn defnyddio'ch data yn unol â'i bolisi preifatrwydd. Mae'r Siarter Preifatrwydd yma yn nodi'n fanylach sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol, a'ch hawliau chi. Mae wedi'i gwneud o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu (GDPR).

**Manylion cysylltu** – I gael trafodaeth gyfrinachol am y rôl i'ch helpu i benderfynu ar eich addasrwydd i wneud cais a/neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, cysylltwch â:

Phillippa Edmunds yn PackUK.governance@defra.gov.uk.